7.12.2020

Annwyl Rieni/Gofalwyr

**Heddiw,** byddwch yn derbyn gan eich plentyn:

- Adroddiad eich plentyn (adroddiad tymor)
- Taflen adborth
- Taflen manylion a chasglu data
- Taflen Presenoldeb (nid i ddisgyblion Meithrin)

Gofynwn, os gwelwch yn dda, i chi ddychwelyd eich taflen adborth ac os oes angen diweddaru eich manylion ar y ffurflen data, bod hwn yn cael ei ddychwelyd hefyd.

**HMS**

Cofiwch! Mi fydd yr Ysgol **yn cau ar Rhagfyr 18fed i ddisgyblion**. Bydd yr Ysgol yn ailagor i ddisgyblion a staff **ar ddydd Llun Ionawr 4ydd 2021.**

**Cardiau ac anrhegion Nadolig**

Rydym wedi derbyn ychydig o ymholiadau ynglŷn â chardiau ac anrhegion Nadolig a sut y gellir eu rhannu'n ddiogel gyda chyd-ddisgyblion dosbarth a staff. Y cyngor gan ALl Abertawe yw*: "Fe'ch cynghorir i osod unrhyw gardiau ac anrhegion a ddarperir mewn bocs a'u gadael am 72 awr. Ar ôl 72 awr, gall staff drin anrhegion a golchi dwylo. Fodd bynnag, os yw'r anrheg mewn deunydd pacio gwreiddiol, botel (dim gwydr), plastig caled, gellir ei lanhau cyn ei drin."* Felly, ym mhob dosbarth bydd bocs y gall disgyblion roi anrhegion a chardiau pe byddent am wneud hynny. Y diwrnod olaf i ddisgyblion ddod â'r anrhegion a'r cardiau fydd **dydd Gwener yr 11eg o Ragfyr**. Bydd hyn yn caniatáu amser ynysu ac i staff ddosbarthu.

**Nadolig yn y Gymuned**

Fel y gwyddoch i gyd rwy'n siŵr, bod teuluoedd yn ein cymuned na fyddant yn cael yr un profiad â llawer o'n plant. Gofynnwn yn garedig i chi roi 1 neu 2 eitem bwyd Nadolig (o'r siop) sy'n addas ar gyfer plant neu rieni neu deganau y gellid eu defnyddio fel anrhegion. Meddyliwch am bob ystod oedran. Bydd bocs yn cael ei ddefnyddio i gasglu'r eitemau ac yna eu hynysu. Bydd y bocs wedi'i leoli y tu allan, o dan y cysgod, a bydd eich plentyn yn gallu rhoi eich eitem yn y blwch ar ei ffordd i'r dosbarth yn y bore. Y dyddiad olaf i dderbyn rhoddion fydd dydd **Gwener yr 11eg o Ragfyr** oherwydd yr angen i ynysu.

**Prydau Bwyd Am Ddim**
Bydd y cyngor yn cefnogi plant prydau bwyd am ddim trwy gynnig naill ai taliad neu barsel bwyd dros gyfnod gwyliau'r Nadolig. Os ydych wedi derbyn taliad o'r blaen yna nid oes angen i chi wneud unrhyw beth. Os nad ydych wedi derbyn unrhyw beth o'r blaen yna gallwch naill ai gysylltu â'r ysgol erbyn 16 Rhagfyr i ofyn am ddanfon parsel bwyd neu aros am gyfarwyddiadau e-bost ar sut i wneud cais am daliad.

**Etholiadau Rhieni-Lywodraethwyr**
Diolch i bawb a wnaeth gynnig ar gyfer y rôl rhiant-lywodraethwr.

Yr ymgeiswyr a lwyddodd oedd:
- Gareth Tomos
- Tyrone Raybe

Rydym yn croesawu'r ddau i'w rolau newydd yn yr ysgol.

**Etiquette e bost**
A gaf i ofyn yn gwrtais i rieni gadw at ganllawiau defnydd o e-bost? Dylid anfon e-byst o fewn **oriau swyddfa a dim ond defnyddio e-byst os yw'n fater o bwys**. Ar gyfer pob ymholiad arall, defnyddiwch y llyfr cyswllt cartref / ysgol. Gofynnaf hefyd i rieni beidio â danfon unrhyw e-byst i staff dros wyliau'r Nadolig. Rwy'n siŵr eich bod chi i gyd yn gytûn eu bod nhw'n haeddu seibiant!

Diolch i bawb am eu cydweithrediad parhaus.

Yn Gywir

Elin Wakeham

**Ysgol Gynradd Gymraeg Bryn y Môr, St Albans Road, Brynmill, Swansea, SA2 0BP**
**E-bost/ E-mail: ygg.brynymor@swansea-edunet.gov.uk**
**Gwefan/ Website: www.yggbrynymor.co.uk**
**Trydar/Twitter: @YGGBrynymor1**
**Ffôn/ Tel: 01792 466354**